Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru

Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid
Canllawiau ar gyfer Datgan Diddordeb

# Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad ..... 2
Adran 2: Y broses ymgeisio ..... 2
Adran 3: Pwy sy'n cael gwneud cais? ..... 2
Adran 4: Beth fyddwn yn talu amdano ..... 3
Adran 5: Yr arian sydd ar gael ..... 4
Adran 6: Cymhwystra ..... 5
Adran 7: Cymhwystra a Meini prawf â blaenoriaeth ar gyfer Cam 1 ..... 5
Adran 8: Cyllid ..... 8
Adran 9: Ble y galla' i fynd am help? ..... 9

## Adran 1: Cyflwyniad

**Amcanion y Cynllun:**

Mae ein hamgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd lleol yn darparu gwasanaethau a chefnogaeth hanfodol i gymunedau ledled Cymru. Maen nhw hefyd yn rhoi gwybodaeth, addysg a mwynhad i'r bobl sy'n ymweld â nhw.

Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid, rhaglen i sefydliadau allu trawsnewid eu gwasanaethau er mwyn:

- Cyflawni **Meini Prawf Cymhwystra** Llywodraeth Cymru a gwireddu blaenoriaethau strategol y sefydliad ei hun.
- Moderneiddio cyfleusterau er mwyn gwella mynediad, annog mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau ac adnewyddu'r hyn a gynigir i ddefnyddwyr trwy gynnal a gwella gwasanaethau.
- Datblygu model mwy cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Cynnig gwasanaethau gwell i bobl a'u cymunedau.
- Gwneud casgliadau'n fwy hygyrch, eu datblygu'n well a gwella'r gofal amdanyn nhw.
- Cynnal a datblygu ansawdd y gwasanaethau.

## Adran 2: Y broses ymgeisio

**Bydd dwy ran i'r broses ymgeisio am y cynllun grant:**

**Cam 1:** Yn dilyn galwad agored i'r sector, gwahoddiad i'r rheini sydd â diddordeb i ymgeisio. Gall y rheini sydd â diddordeb ddatblygu a chyflwyno Datganiad o Ddiddordeb. Anogir ymgeiswyr i ddarparu cais drafft i gynghorwyr cyn ei gyflwyno.

**Cam 2:** Gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus y cam cyntaf ddatblygu a chyflwyno cais llawn. Rhaid i'r cais yn yr ail gam gyd-fynd â'r cynnig a gafodd ei gymeradwyo yn y Datganiad o Ddiddordeb.

Bydd y ddau gam yn gystadleuol, ac nid yw Datganiad llwyddiannus yn gwarantu arian yn yr ail gam. Fe welwch yr amserlen ar gyfer y Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid mewn dogfen ar wahân.

## Adran 3: Pwy sy'n cael gwneud cais?

**Amgueddfeydd** - amgueddfeydd annibynnol a rhai sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, cyn belled â'u bod wedi'u hachredu yn llawn neu dros dro o dan gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU neu'n gweithio at gael eu hachredu.

**Archifau -** gwasanaeth archif wedi'i achredu, wedi'i achredu dros dro neu wedi ymrwymo'n ffurfiol i gael ei achredu o fewn amserlen y cytunir arni.

Mae ceisiadau gan bartneriaethau sy'n darparu gwasanaethau ar lefel rhanbarth neu Gymru gyfan hefyd yn gymwys.

**Llyfrgelloedd -** gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus awdurdodau lleol neu ymddiriedolaethau / cwmnïau nid-er-elw sy'n darparu gwasanaeth llyfrgell ar draws yr awdurdod ar ran yr awdurdod lleol, a llyfrgelloedd cymunedol o dan fframwaith rheoleiddio (e.e. elusen gofrestredig neu gwmni buddiannau cymunedol). Mae llyfrgelloedd cymunedol yn cynnwys:

- Llyfrgelloedd sy'n cael eu rheoli gan y Gymuned: Gyda'r gymuned yn eu harwain ac yn eu darparu, heb staff cyflog fel arfer ond yn derbyn rhyw fath o gymorth gan y cyngor ac yn dal yn rhan o'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.
- Llyfrgelloedd sy'n cael cymorth y Gymuned: Y cyngor sy'n eu harwain ac yn eu hariannu, fel arfer gyda staff cyflog proffesiynol, ond gyda chymorth sylweddol gan wirfoddolwyr.
- Llyfrgelloedd cymunedol annibynnol: Mae adeilad ac adnoddau'r llyfrgelloedd hyn wedi'u trosglwyddo i'r gymuned a gwirfoddolwyr sy'n eu rhedeg yn llwyr heb fawr o gymorth (os o gwbl) gan y gwasanaeth llyfrgell lleol. Dydyn nhw ddim yn rhan o'r gwasanaeth statudol.

## Adran 4: Beth fyddwn yn talu amdano

**Costau cymwys**

At ddiben **costau cyfalaf yn unig** y mae arian y rhaglen hon. Mae gwariant cymwys yn cynnwys gwaith adeiladu a pheirianyddol, ffioedd proffesiynol a ffitiadau / offer ychwanegol sy'n rhan annatod o'r gwaith datblygu. Os oes gennych gwestiynau ynghylch pa rannau o'ch prosiect sy'n gymwys, cysylltwch â'r Is-adran Ddiwylliant (gweler adran 9 am y manylion).

Caiff gwasanaethau wneud cais hefyd am gyfalaf i'w fuddsoddi i gefnogi gwasanaethau symudol e.e. llyfrgell neu amgueddfa deithiol. Bydd gofyn i'r cais esbonio'n glir sut y bydd y buddsoddiad yn datblygu ac yn gwella'r ddarpariaeth bresennol.

Hefyd, caiff gwasanaethau wneud cais am gyfalaf i'w fuddsoddi mewn seilwaith technoleg gwybodaeth a digidol er mwyn i wasanaethau allu ateb y galw cynyddol am gael defnyddio casgliadau a gwasanaethau digidol. Er mwyn cael grant i gefnogi seilwaith o'r fath, rhaid creu cynllun ar gyfer cynnal systemau yn y tymor hirach (gydag addewid ysgrifenedig o gefnogaeth gan wasanaethau TG perthnasol). Rhoddir blaenoriaeth hefyd i geisiadau cydweithredol lle bydd y system a gynigir yn diwallu anghenion nifer o wasanaethau.

Caiff ymgeiswyr neilltuo hyd at 10% o'r grant i helpu â chostau staff sy'n gysylltiedig â rheoli'r prosiect cyfalaf.

Mae 5 Maen Prawf Cymhwystra a 5 Maen Prawf â Blaenoriaeth ar gyfer y Rhaglen

Ar gyfer y Rhaglen hon, wrth gyllido adeilad newydd, un o amodau craidd Llywodraeth Cymru yw bod yr adeilad yn bodloni'r ddwy safon adeiladu ganlynol:

- Sgôr 'Ragorol' gyffredinol o dan fframwaith asesu BREEAM, neu sgôr debyg o dan fframwaith asesu cyfwerth
- Safon ofynnol ar gyfer cynnwys wedi'i ailgylchu. Dylai o leiaf 10% o gyfanswm gwerth y deunyddiau a ddefnyddir yn y cynnyrch a'r deunydd a ddewisir ddod o ddeunydd wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio.

Pwysig: chewch chi ddim defnyddio arian gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun hwn i brynu tir neu adeiladau.

## Adran 5: Yr arian sydd ar gael

**Gall sefydliadau neu wasanaethau wneud cais am grantiau rhwng £200,000.00-£500,000.00 am hyd at 2 flynedd** ar gyfer prosiectau strategol a mwy, megis ailalinio gwasanaethau (e.e. adnewyddu adeilad mawr, datblygu partneriaethau a rhannu cyfleusterau, cyfnewid y ddarpariaeth deithiol bresennol yn llwyr) neu ddatblygu gwasanaethau rhwng awdurdodau neu'n 'rhanbarthol'.

Mae sefydliadau neu wasanaethau (llyfrgell, archif, amgueddfa yn achos awdurdodau lleol) yn cael gwneud hyd at ddau gais am grant ymhob ffenestr grant. Bydd pob cais yn cael ei sgorio yn unol â'r meini prawf cyn cael ei ystyried mewn panel penderfynu. Byddwn yn ceisio rhannu'n cyllid yn deg o ran ardal a sector.

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu **o leiaf** 10% o gyfanswm costau'r prosiect fel arian/cyfraniad cyfatebol tuag at y prosiect. **Rhaid** i'r cyfraniad o 10% gan sefydliadau Awdurdodau Lleol **fod yn ariannol**, ond gall cyfraniad gwasanaethau neu ymddiriedolaethau annibynnol / cwmnïau nid-er-elw fod ar ffurf nwyddau neu wasanaethau.

*Mae angen i arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Grantiau Cyfalaf Trawsnewid ddod o'ch cyllid eich hun neu gyllid allanol ehangach na'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.* Gall y "cyllid cyfatebol" hwn ddod o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys:

- Ffynonellau'r sefydliad ei hun
- Rhiant-gwmni
- Benthyciad drwy fanc neu sefydliad ariannol arall
- Grantiau o ffynonellau eraill fel Awdurdodau Lleol, cyrff eraill sy'n rhoi grantiau ac ati. (Ni fyddai'n cael ei ystyried yn arfer da i ddefnyddio grantiau eraill Llywodraeth Cymru fel "arian cyfatebol")
- Arian cyfatebol "ar ffurf nwyddau neu wasanaethau"

Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r amod 10%, yn cael mynd yn eu blaen i gam 2. Rhaid i chi drafod â chynghorydd y sector cyn cyflwyno cais os ydych am i'ch cyfraniad fod

ar ffurf nwyddau neu wasanaethau.[1]

Gweler adran 8 am fanylion sut i lenwi adran gyllid eich ffurflen gais.

## Adran 6: Cymhwystra

**Amodau**

Er mwyn cael ei ystyried yn gymwys, rhaid i'ch cais fodloni'r **holl** amodau canlynol:

- rhaid i'r cais fod gan amgueddfa, archif neu lyfrgell annibynnol neu un sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol / ymddiriedolaeth nid-er-elw / cwmni fel a ddisgrifir yn adran 3.
- rhaid i geisiadau gan ymddiriedolaethau / cwmnïau nid-er-elw gynnwys llythyr o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol perthnasol.
- rhaid i ymgeiswyr ddarparu manylion o ran y dyddiad y bydd eu cais am Ganiatâd Cynllunio neu Gydsyniad Adeilad Rhestredig yn cael ei gyflwyno, a chadarnhad yn eu cais cam 2 y bydd y dyddiad cymeradwyo disgwyliedig cyn panel cymedroli cam 2 (mae amserlen lawn y cynllun wedi'i darparu gyda'ch pecyn cais). Rhaid cadarnhau cyfraniad cyfatebol o 10%, gyda thystiolaeth, cyn cyflwyno'r cais cam dau.
- dylai lleoliad y prosiect ganiatáu lefel resymol o fynediad am ddim i'r cyhoedd sy'n ateb gofynion defnyddwyr.
- dangos tystiolaeth glir bod angen, gan gynnwys sut mae'r prosiect yn bodloni gofynion cynlluniau busnes a pholisïau lleol a chenedlaethol.
- rhaid cwblhau'r holl weithgareddau y bydd y grant yn eu cyllido, a'i hawlio, erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ariannol dan sylw. Rhaid i'r gweithgarwch ddechrau ym mlwyddyn gyntaf cylch y cynllun hwnnw a rhaid cyflwyno o leiaf 1 hawliad am o leiaf 10% o gyfanswm y costau a ariennir gan grant ym mlwyddyn un.
- ni fydd safle nac uned deithiol yn cael mwy na £500k ar gyfer prosiectau mewn 5 mlynedd.

## Adran 7: Cymhwystra a Meini prawf â blaenoriaeth ar gyfer Cam 1

**Meini Prawf**

Bydd y datganiadau o ddiddordeb yn cael eu sgorio yn ôl y 4 maen prawf isod, gan ddefnyddio'r raddfa sgorio ganlynol wedi'i lluosi â ffactor bwysoli i roi sgôr terfynol.

Rhaid cael o leiaf sgôr o 2 ar gyfer pob maen prawf. Os rhoddir sgôr o sero ar gyfer unrhyw faen prawf, caiff y cais ei wrthod.

[1] Mae canllawiau ar gael yn Gwerth Economaidd Gwirfoddolwyr.pdf (cefnogitrydyddsector.cymru)

| | Cymhwystra a Meini Prawf â Blaenoriaeth | Sgôr | Ffactor Bwysoli |
|---|---|---|---|
| **C1 a) a b)** | Beth yw'r prosiect a pham ydych chi am ei gynnal nawr?<br>**Pa 3 chanlyniad/mantais y bydd eich prosiect yn eu cynhyrchu?** | 0 - 4 | x 4 |
| **C2** | Pa feini prawf cymhwystra y bydd eich prosiect yn eu cefnogi? | 0 - 4 | x 3 |
| **C3** | Sut mae'n helpu i wireddu'r blaenoriaethau o fewn meini prawf y rhaglen? | 0 - 4 | x 4 |
| **C4** | Pa safonau perthnasol gan gynnwys yr WPLS ar gyfer Llyfrgelloedd neu gynlluniau achredu Amgueddfeydd ac Archifau y bydd eich prosiect yn eu cefnogi? | 0 - 4 | x 3 |

**C1a Beth yw'r prosiect a pham ydych chi am ei gynnal nawr?**

- Rhowch ddisgrifiad byr o'ch prosiect,
- Disgrifiwch beth rydych chi'n gwneud cais amdano a sut ydych yn gweld bod ei angen.
- Esboniwch yn union beth fyddwch chi'n ei wneud gyda'r arian ac ar beth y byddwch yn gwario'r grant pe baech yn llwyddiannus.
- Disgrifiwch dri chanlyniad/mantais.

**C1b Pa 3 chanlyniad/mantais y bydd eich prosiect yn eu cynhyrchu?**

**Trafodwch y rhain gyda'ch cynghorydd.**

**C2 Pa rai o'r meini prawf cymhwystra y bydd eich prosiect yn eu cefnogi?**

Rhaid i bob cynnig ategu neu gefnogi **un neu fwy** o'r **meini prawf cymhwystra** yn y rhestr isod. Nodwch ba faen prawf/meini prawf y bydd eich cynnig yn helpu Llywodraeth Cymru i'w wireddu:

1. Darparu buddsoddiad ataliol sy'n cydnabod rôl ganolog diwylliant wrth hyrwyddo iechyd da a chadw pobl yn iach
2. Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a chanlyniadau gwell ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl drwy gefnogi diwylliant
3. Gwella cydraddoldeb o ran mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a chwaraeon i bobl o bob oedran, cefndir a gallu ac ymgorffori cyfleoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig ag ysgolion a chymunedau lleol
4. Gwella cysylltedd digidol, gwella'r seilwaith ac ehangu mynediad at ddiwylliant ar-lein
5. Ymgorffori datgarboneiddio, cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd.

**C3 Sut mae'ch cynnig yn helpu i wireddu blaenoriaethau prif feini prawf y rhaglen?**

Bydd angen i chi ystyried ac egluro sut mae eich prosiect yn cefnogi un neu fwy o'r canlynol:

- Moderneiddio cyfleusterau er mwyn gwella mynediad, annog mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau ac adnewyddu'r hyn a gynigir i ddefnyddwyr trwy gynnal a gwella gwasanaethau.
- Datblygu model mwy cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau.
- Gwella gwasanaethau i bobl a'u cymunedau.
- Gwneud casgliadau'n fwy hygyrch, eu datblygu'n well a gwella'r gofal amdanyn nhw.
- Cynnal a datblygu ansawdd y gwasanaethau.

**C4 Pa safonau perthnasol gan gynnwys WPLS ar gyfer Llyfrgelloedd a chynlluniau achredu Amgueddfeydd ac Archifau, a fydd yn cael eu defnyddio wrth roi'r cynnig ar waith?**

Rhaid i bob cynnig ddangos y bydd yn helpu i gynnal a datblygu ansawdd gwasanaethau, yn unol â safonau, cynlluniau a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Safonau a chynlluniau proffesiynol canlynol ymhlith pethau eraill:

- Y Cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau
- Y Cynllun Achredu Amgueddfeydd
- Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru
- BS 4971:2017 Diogelu a gofalu am gasgliadau archifau a llyfrgelloedd
- BS EN 16893: 2018 Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol. Manyleb ar gyfer lleoli, adeiladu ac addasu adeiladau neu ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer storio neu ddefnyddio casgliadau treftadaeth.
- Y Model Asesu Cyflym (DPC RAM)
- Lefelau Cadwraeth Ddigidol NDSA (Lefelau Cadwraeth Ddigidol (ndsa.org)
- Ffederasiwn y Llyfrgelloedd Digidol - Lefelau Mynediad yr OSF i Ddeunydd a Grëwyd yn Ddigidol
- Cynllun Indemniad y Llywodraeth
- Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr

**Sgoriau sydd ar gael a sail sgorio pob maen prawf.**

Ar gyfer C1 (a a b) a C3, defnyddir y system sgorio isod.

| Sgôr | Sail |
|---|---|
| 4. | Rhoddir esboniad ardderchog a manwl o sut y bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf dan sylw |
| 3. | Rhoddir esboniad da o sut y bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf dan sylw, ond gellid bod wedi rhoi tystiolaeth gryfach o sut y byddech yn ateb y gofynion mewn meysydd perthnasol. |
| 2. | Rhoddir rhywfaint o esboniad o sut y bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf dan sylw, ond gellid bod wedi rhoi tystiolaeth gryfach o sut y byddech yn ateb y gofynion mewn meysydd perthnasol. |
| 1. | Ymwybyddiaeth amlwg o sut y bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf dan sylw, ond nid oes digon o wybodaeth i ddangos eich bod wedi'u hystyried ddigon wrth ddatblygu'r prosiect. |
| 0. | Ni roddwyd unrhyw wybodaeth ynghylch sut y bydd y prosiect yn bodloni'r meini prawf dan sylw |

Ar gyfer C2 a C4, defnyddir y system sgorio isod.

| Sgôr | Sail |
|---|---|
| 4 | Mae'r holl feysydd (blaenoriaethau neu safonau) perthnasol wedi'u dewis gan ddibynnu ar ffocws y cynnig. |
| 2 | Mae rhai o'r meysydd (blaenoriaethau neu safonau) sy'n berthnasol i'r prosiect wedi'u dewis. Ond gellid bod wedi cynnwys meysydd eraill ar sail ffocws y cynnig. |
| 0 | Nid oes meysydd (blaenoriaethau neu safonau) perthnasol wedi'u dewis y bydd y cynnig yn eu cyflawni. |

## Adran 8: Cyllid

**Faint bydd y prosiect yn ei gostio a faint o gyfalaf hoffech chi ei gael trwy'r cynllun hwn?**

Yn eich cais, rhowch amcangyfrif manwl o gost pob elfen eich prosiect. **Peidiwch** â chynnwys TAW yn eich costau oni bai nad oes modd ichi ei hawlio'n ôl oddi wrth CThEF. Os ydych yn cynnwys TAW neu ran o'r TAW yn unrhyw rai o'r costau rydych yn eu rhestru, nodwch hynny'n glir yn y disgrifiad o'r eitem (e.e. gwaith adeiladu (gan gynnwys TAW)). Dylai'r **Grant y gofynnir i Lywodraeth Cymru amdano** a ffigurau **Cyllid o ffynonellau eraill** fod yr un faint â'r ffigur **Cyfanswm cost y prosiect.**

Dyma enghraifft:

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cost y prosiect** *[Pwysig: Dyma'r grant rydych wedi gofyn amdano + eich cyfraniad arian cyfatebol]* | £100,000.00 |

| | **Eitem** *(penawdau enghreifftiol isod)* | **Amcangyfrif o'r Gost** | **Ffynhonnell yr wybodaeth** |
|---|---|---|---|
| **Grant rydych wedi gofyn i Lywodraeth Cymru amdano** *[Pwysig: ychwanegwch linellau os oes angen]* | *Gwaith strwythurol* | *£45,000* | *Adroddiad y Syrfëwr Meintiau* |
| | *Ffitiadau* | *£10,000* | *Amcangyfrif* |
| | *Gwella'r system wresogi* | *£15,000* | *Dyfynbris y cyflenwr* |
| | *Casys arddangos* | *£20,000* | *Dyfynbris y cyflenwr* |
| **Cyllid o ffynonellau eraill, manylwch (o leiaf 10% yn arian cyfatebol)** *[Pwysig: ychwanegwch linellau os oes angen]* | *Arwyddion* | *£5,000* | *Dyfynbris y cyflenwr* |
| | *Rheoli'r prosiect* | *£5,000* | *Cyfrif amser/costau staff* |

## Adran 9: Ble y galla' i fynd am help?

**Cysylltiadau**

**Rhaid** i bob ymgeisydd gysylltu â chynghorydd y sector perthnasol yn yr Is-adran Ddiwylliant i gael cyngor ar ei brosiect cyn Datgan Diddordeb.

**Prosiectau archifau**

Stacy O'Sullivan, Cynghorydd Achredu Archifau - Stacy.O'Sullivan@llyw.cymru

**Prosiectau llyfrgelloedd**

Juanita Foster-Jones, Cynghorydd Llyfrgelloedd - Juanita.Foster-Jones@llyw.cymru
Bethan Lee, Uwch-gynghorydd Datblygu Llyfrgelloedd – Bethan.Lee@llyw.cymru

**Prosiectau amgueddfeydd**

Sara Maggs, Uwch Gynghorydd Datblygu Amgueddfeydd - Sara.Maggs@llyw.cymru
Rachel Adams, Cynghorydd Amgueddfeydd - Rachel.Adams002@llyw.cymru

Fel arall, cysylltwch â'r Is-adran Ddiwylliant ar 0300 062 2112 neu diwylliant@llyw.cymru

Mae gwefan Designing Libraries yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer darpar ymgeiswyr ar gyfer gwasanaethau llyfrgell. Mae'n disgrifio enghreifftiau o brosiectau llyfrgelloedd newydd ac adnewyddu llyfrgelloedd yn y DU.

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol wedi cyhoeddi Success Guide: Successfully Managing Capital Projects.

Mae'r Archifau Cenedlaethol yn darparu dolenni i ystod o adnoddau gwybodaeth defnyddiol ar ddatblygiadau cyfalaf.

**Adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig**

Polisi Cynllunio Cymru
Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)
Nodyn Cyngor Technegol 24: yr Amgylchedd Hanesyddol

Egwyddorion Cadwraeth
Egwyddorion Cadwraeth | Cadw (llyw.cymru)

Lleoliadau Asedau Hanesyddol
Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru (llyw.cymru)

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru
Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru